Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Datganiad Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd –

Staff a Disgyblion Hyn

Mae system gyfrifiadurol yr ysgol yn bodoli er mwyn i fyfyrwyr ddatblygu eu haddysg ac er mwyn i staff ddatblygu eu sgiliau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys addysgu, ymchwil, gweinyddu a rheoli. Datblygwyd Polisi Mynediad Rhyngrwyd yr ysgol er mwyn diogelu myfyrwyr a staff.

Cedwir yr hawl i archwilio neu ddileu unrhyw ffeiliau a allai fod yn cael eu cadw ar y system gyfrifiadurol ac i fonitro unrhyw safleoedd Rhyngrwyd a ymwelwyd â hwy.

- Ceir mynediad trwy gyfrwng y cyfrif a'r cyfrinair a awdurdodwyd yn unig. Ni ddylai'r wybodaeth hon fod ar gael i unrhyw berson arall;
- Dylai pob defnydd o'r Rhyngrwyd fod yn briodol i weithgarwch proffesiynol staff neu i addysg myfyriwr;
- Gwaherddir gweithgarwch sy'n bygwth cywirdeb systemau TGCh ac enw da yr ysgol. Gwaherddir hefyd unrhyw weithgarwch sy'n ymosod ar, neu sy'n llygru systemau eraill;
- Dylai'r safleoedd a'r deunyddiau a geir mynediad iddynt fod yn briodol i waith yr ysgol. Bydd defnyddwyr yn adnabod deunyddiau amhriodol a dylent ddisgwyl i'w mynediad i'r Rhyngrwyd gael ei ddileu;
- Cyfrifoldeb y defnyddwyr yw'r e-byst a ddanfonir, y cysylltiadau a wneir a'r e-byst a gaiff eu derbyn;
- Dylai'r un lefel broffesiynol o iaith a chynnwys fodoli mewn e-bost ag a geir mewn llythyron neu gyfryngau eraill. Cofier bod e-byst yn aml yn cael eu danfon ymlaen at eraill;
- Gwaherddir danfon negeseuon di-enw neu lythyron cadwyn;
- Dylid parchu hawlfraint deunyddiau proffesiynol yn ogystal â hawliau deunyddiau llenyddol personol;
- Gellir dilyn diddordebau cyfreithlon os nad yw defnydd yr ysgol yn cael ei beryglu;
- Gwaherddir defnyddioi'r Rhyngrwyd er budd personol ariannol, gamblo, unrhyw fath o ymgyrchu, dibenion gwleidyddol neu hysbysebu.

Dylai staff a myfyrwyr sy'n dymuno cael mynediad i'r Rhyngrwyd lofnodi copi o'r datganiad 'Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd' a'i ddychwelyd at y Rheolwr TGCh a fydd yn ei gymeradwyo.

Enw Llawn	… … … … … … … … … …	Dosbarth / Swydd	… … … … … … … … … …
Llofnod	… … … … … … … … … …	Dyddiad	… … … … … … … … … …
Caniatâd	… … … … … … … … … …	Dyddiad	… … … … … … … … … …